WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Gareth Chapman
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Canolfan Ddinesig
Merthyr Tudful
CF47 8AN

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | 641A2013 |
| **Dyddiad** | 29 Tachwedd 2013 |
| **Tudalennau** | **1** o **2** |

Annwyl Gareth

## Asesiad Gwella

Yn fy llythyr dyddiedig 15 Tachwedd 2013, rhoddais fy marn ynghylch a yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (y Cyngor) wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio ar gyfer gwella.

Mae'n ofynnol i mi hefyd, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), roi barn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

**Yn fy marn i, ac yn seiliedig ar waith archwilio a wnaethpwyd hyd yma, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ond ceir potensial i gryfhau ei drefniadau ymhellach.**

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 2012-13 yn ei *Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2012-13* (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013;
- mae'r Adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac mae'n amlinellu sut mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur;
- mae'r Adroddiad yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella gan ddefnyddio sylfaen dystiolaeth ehangach nag yn y blynyddoedd blaenorol er mwyn gwneud hynny, ac mae'n cyflwyno ei berfformiad mewn ffordd deg a chytbwys;

- mae’r Adroddiad yn cynnwys gwybodaeth berthnasol i ddinasyddion sydd eisiau rhoi adborth neu sylwadau ar berfformiad y Cyngor;
- mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurwyd gan ddangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol ond mae cyfle i fynegi’n fwy eglur beth mae’r wybodaeth hon yn ei olygu a beth mae’r Cyngor wedi ei wneud o’i ganlyniad; ac
- mae’r Adroddiad yn cynnwys manylion am sut y mae’r Cyngor wedi ceisio cydweithio ond gellid cryfhau hyn drwy egluro’n fwy cyson y canlyniadau a’r manteision sydd wedi eu cyflawni yn sgil y gwaith cydweithredol hwn.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion

Nid wyf yn gwneud unrhyw gynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddaf yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran gweithredu ar y cynigion a’r argymhellion a amlinellwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol ac yn adrodd ar hynny.

Byddaf yn gwneud rhagor o waith manylach ar y trefniadau sy'n cefnogi gwaith rheoli ac adrodd ar berfformiad y Cyngor yn ystod y misoedd i ddod. Byddaf yn adrodd ar hyn, yn ogystal â chrynhoi fy holl waith a gwaith rheoleiddwyr perthnasol yn ystod 2013-14, mewn Adroddiad Gwella Blynyddol i’r Cyngor y byddaf yn ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2014.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

cc: Lesley Griffiths, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth